

Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, 2014

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn darparu gwybodaeth i Gymru ar y sgoriau safonedig a enillwyd yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol. Cyflwynir y data ar lefel Cymru a lefel yr awdurdod lleol (ALI). Cafodd y Profion Cenedlaethol eu cyflwyno gyntaf mewn ysgolion ym mis Mai 2013 ar gyfer pob disgybl ym Mlynnyddoedd 2 i 9.

Dyma'r ail flwyddyn y mae data ar Brofion Cenedlaethol wedi'i gasglu. Ar gyfer 2014, cyflwynwyd cydran resymu ychwanegol i'r prawf rhifedd. Felly, 2014 oedd y flwyddyn gyntaf i'r prawf rhifedd llawn gael ei sefyll. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn yr Adran Nodiadau ar dudalen 9 o'r datganiad hwn.

Cafodd sgoriau craidd disgyblion a gafwyd o'r papurau prawf eu trosi'n sgoriau safonedig, a gyflwynir yn y datganiad hwn. Mae sgoriau safonedig yn cymryd i ystyriaeth oedran y disgybl adeg profi, sy'n golygu bod modd cymharu disgyblion o'r un oedran. **Mae'r canlyniadau safonedig yn darparu mesur o berfformiad cymharol yn unig. Felly dylid defnyddio'r data yn y datganiad hwn i gymharu perfformiad cymharol gwahanol gohortau yn hytrach nag i asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosydd penodol. Dylid nodi hefyd na ddylid defnyddio canran y disgyblion sy'n ennill sgôr safonedig o fwy na 85 fel dangosydd o berfformiad "derbynol".**

Cyflwynir canlyniadau yn y datganiad hwn mewn tri band o sgoriau safonedig. Y band "Llai na 85" yw'r disgyblion â sgoriau safonedig o fwy nag un gwyriad safonol llai na'r cymedr. Y band "Rhwyng 85 a 115" yw disgyblion â sgoriau safonedig o fewn un gwyriad safonol o bob tu i'r cymedr. Y band "Mwy na 115" yw'r disgyblion â sgoriau safonedig o fwy nag un gwyriad safonol uwchben y cymedr.

Nid oedd y dosbarthiad o sgoriau safonedig a gafwyd i ddisgyblion a safodd y Prawf Darllen Cenedlaethol ym mis Mai 2013 yn gweddu i'r dosbarthiad sampl a grëwyd i gael sgôr gyfartalog o 100. Roedd y sgôr gyfartalog a welwyd yn y profion "byw" yn uwch, gan nodi bod y boblogaeth o ddisgyblion a safodd y profion ym mis Mai 2013 wedi perfformio'n well na'r grŵp sampl a oedd yn sail i'r sgoriau safonedig. O ganlyniad, cafodd y Profion Darllen Cenedlaethol eu hailsafoni ar sail y profion "byw". Cafwyd diwygiadau i dablau'r Profion Darllen Cenedlaethol yng nghanlyniadau'r Profion darllen a Rhifedd Cenedlaethol [datganiad](#) 2013.

Mae Sgoriau safonedig yn darparu mesur o berfformiad cymharol yn unig. Felly ni ddylid defnyddio'r datganiad hwn i gymharu perfformiad cymharol ar draws gwahanol gohortau a blynnyddoedd. Hefyd, mae'r canlyniadau ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol wedi cael eu safoni ar wahân ac ni ddylid eu cymharu i asesu gallu darllen disgyblion.

Ystadegydd:: Stephen Hughes

Ffôn: 029 2082 3332

Ebost: ystadegau.ysgolion@cymru.gsi.gov.uk

Diweddariad nesaf: Awst 2015 (dros dro)

Twitter: www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru

Cyhoeddwyd gan Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn – Swyddfa'r Wasg **029 2089 8099**, Ymholiadau Cyhoeddus **029 2082 3332**

www.cymru.gov.uk/ystadegau

Issued by Knowledge and Analytical Services

Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ

Telephone – Press Office **029 2089 8099**, Public Enquiries **029 2082 5050**

www.wales.gov.uk/statistics



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pwyntiau Allweddol ar gyfer 2014:

Prawf Darllen Cenedlaethol:

- Perfformiodd merched yn well na bechgyn yn y ddwy fersiwn o'r Prawf Darllen Cenedlaethol gyda mwy o ferched nag o fechgyn yn ennill sgôr safonedig o fwy na 115. Enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o lai na 85 yn y ddwy fersiwn o'r Prawf Darllen Cenedlaethol.
- Yn Sir Fynwy y gwelwyd y ganran uchaf o ddisgyblion yn ennill sgôr safonedig o fwy na 115 yn y fersiwn Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol ac yng Nghaerdydd yn y fersiwn Gymraeg.
- Ym Mlaenau Gwent yr oedd y ganran o ddisgyblion a enillodd sgôr safonedig o lai na 85 ar ei huchaf a hynny yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol.

Prawf Rhifedd Cenedlaethol:

- Enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o fwy na 115 yn y cydrannau Gweithdrefnol a Rhesymu o'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol, er bod mwy o fechgyn nag o ferched wedi ennill sgôr safonedig o lai na 85 yn y gydran Resymu o'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol.
- Yng Ngheredigion y gwelwyd y ganran uchaf o ddisgyblion yn ennill sgôr safonedig o fwy na 115 a hynny yn y cydrannau Gweithdrefnol a Rhesymu o'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol. Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y ganran isaf o ddisgyblion yn ennill sgôr safonedig o fwy na 115 ar gyfer y ddwy gydran.

Profion Darllen Cenedlaethol

Tabl 1: Canlyniadau Profion Darllen Cenedlaethol i bob disgybl, yn ôl rhyw, Grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniad, 2014 (a)

Noder: Mae'r canlyniadau wedi'u safoni ar wahân ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol ac ni ddylid eu cymharu i asesu gallu darllen disgyblion. Mae sgoriau safonedig yn cynnig mesur o berfformiad cymharol yn unig. Felly ni ddylid defnyddio'r data yn y datganiad hwn i gymharu'r perfformiad cymharol ar draws gwahanol gohortau a blynyddoedd.

Grŵp Blwyddyn	Rhyw	Prawf Darllen Cenedlaethol - Saesneg						Prawf Darllen Cenedlaethol - Cymraeg					
		Yn absennol		Llai na 85	Rhwng 85 a 115	Mwy na 115	Cohort	Yn absennol		Llai na 85	Rhwng 85 a 115	Mwy na 115	Cohort
		Wedi'u datgymhwyso	yn ystod y cyfnod prawf					Wedi'u datgymhwyso	yn ystod y cyfnod prawf				
		%	%	%	%	%		%	%	%	%	%	
Blwyddyn 2	Bechgyn	3.3	1.0	16.0	65.7	14.0	13,684	1.0	1.2	16.1	68.6	13.0	3,786
	Merched	1.3	1.1	10.5	68.0	19.0	12,893	0.5	0.8	10.5	67.6	20.6	3,803
	Pob disgybl	2.3	1.0	13.4	66.8	16.4	26,577	0.8	1.0	13.3	68.1	16.8	7,589
Blwyddyn 3 (a)	Bechgyn	3.1	1.1	16.1	63.6	16.1	13,515	1.1	0.8	17.8	65.9	14.5	3,615
	Merched	1.5	0.9	10.5	65.5	21.6	12,606	0.6	0.9	10.4	64.7	23.3	3,697
	Pob disgybl	2.3	1.0	13.4	64.5	18.8	26,121	0.8	0.9	14.1	65.3	18.9	7,312
Blwyddyn 4	Bechgyn	2.6	1.1	15.8	67.4	13.0	16,965	1.6	1.1	17.5	67.4	12.4	3,500
	Merched	1.3	1.3	11.1	67.1	19.2	16,107	0.9	1.6	11.2	66.4	19.9	3,464
	Pob disgybl	2.0	1.2	13.5	67.2	16.0	33,072	1.2	1.3	14.4	66.9	16.2	6,964
Blwyddyn 5	Bechgyn	2.7	1.1	15.8	66.5	13.9	16,631	1.6	1.0	16.6	64.4	16.4	3,313
	Merched	1.3	1.0	10.9	66.4	20.5	15,630	0.9	0.9	9.2	65.4	23.7	3,272
	Pob disgybl	2.0	1.1	13.4	66.5	17.1	32,261	1.2	0.9	12.9	64.9	20.0	6,585
Blwyddyn 6	Bechgyn	2.7	1.0	14.6	66.7	14.9	16,292	1.8	1.0	15.7	66.5	15.0	3,165
	Merched	1.4	0.9	11.1	69.1	17.4	15,507	1.0	0.8	10.3	68.7	19.1	3,229
	Pob disgybl	2.1	1.0	12.9	67.9	16.1	31,799	1.4	0.9	13.0	67.6	17.1	6,394
Blwyddyn 7	Bechgyn	1.9	2.3	15.9	65.3	14.6	15,879	0.7	1.2	17.4	65.2	15.4	2,818
	Merched	1.0	1.7	11.7	68.9	16.8	14,929	0.2	0.8	11.4	69.7	17.8	2,837
	Pob disgybl	1.5	2.0	13.9	67.0	15.7	30,808	0.5	1.0	14.4	67.5	16.6	5,655
Blwyddyn 8	Bechgyn	2.0	2.6	15.0	65.9	14.6	16,348	0.8	1.1	18.5	66.8	12.8	2,790
	Merched	0.8	2.3	12.5	67.7	16.7	15,395	0.4	1.3	10.6	67.7	20.0	2,943
	Pob disgybl	1.4	2.4	13.8	66.8	15.6	31,743	0.6	1.2	14.4	67.3	16.5	5,733
Blwyddyn 9	Bechgyn	1.9	3.2	13.9	65.5	15.5	16,618	0.4	1.6	17.3	67.5	13.2	2,742
	Merched	0.8	3.1	11.4	67.0	17.7	15,706	0.0	1.4	9.3	67.8	21.5	2,789
	Pob disgybl	1.4	3.1	12.7	66.2	16.6	32,324	0.2	1.5	13.3	67.6	17.4	5,531
Pob blwyddyn	Bechgyn	2.5	1.7	15.4	65.9	14.5	125,932	1.1	1.1	17.1	66.6	14.1	25,729
	Merched	1.2	1.6	11.2	67.5	18.5	118,773	0.6	1.1	10.4	67.1	20.8	26,034
	Pob disgybl	1.9	1.6	13.4	66.7	16.5	244,705	0.9	1.1	13.7	66.9	17.5	51,763

(a) Ddim yn cynnwys canlyniadau prawf darllen Saesneg dewisol i ddisgyblion ym mlwyddyn 3 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf.


Tabl 2: Canlyniadau Profion Darllen Cenedlaethol, yn ôl ALI a chanlyniad, 2014 (a)

Noder: Mae'r canlyniadau wedi cael eu safoni ar wahân ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol ac ni ddylid eu cymharu i asesu gallu darllen disgyblion.

Awurdod Lleol	Prawf Darllen Cenedlaethol - Saesneg						Prawf Darllen Cenedlaethol - Cymraeg						Cohort
	Yn absennol		Llai na 85	Rhwyng 85 a 115	Mwy na 115	Cohort	Yn absennol		Llai na 85	Rhwyng 85 a 115	Mwy na 115	Cohort	
	Wedi'u datgymhwyso	yn ystod y cyfnod prawf					Wedi'u datgymhwyso	yn ystod y cyfnod prawf					
%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%		
Ynys Môn	1.5	1.8	11.9	67.3	17.5	4,386	1.2	1.5	16.2	65.1	16.0	3,716	
Gwynedd	1.7	1.1	12.6	68.0	16.6	7,316	1.3	0.7	12.0	65.9	20.1	9,083	
Conwy	1.5	1.4	13.2	68.1	15.7	8,313	1.3	0.5	13.3	67.2	17.7	1,878	
Sir Ddinbych	2.1	1.9	13.3	68.3	14.4	8,098	0.8	1.3	10.4	66.9	20.5	1,972	
Sir y Fflint	1.1	2.0	12.8	67.4	16.7	13,021	0.0	0.7	14.5	71.3	13.5	732	
Wrecsam	2.2	1.8	13.9	66.5	15.6	10,875	*	*	16.7	67.4	14.7	1,171	
Powys	2.0	0.8	10.4	66.0	20.8	9,986	0.9	0.6	12.1	67.9	18.5	1,618	
Ceredigion	2.0	1.1	10.3	65.4	21.2	4,372	2.0	1.0	12.7	65.8	18.4	3,736	
Sir Benfro	1.5	1.7	11.5	66.2	19.0	9,458	0.8	0.6	12.7	69.2	16.6	1,822	
Sir Gaerfyrddin	1.9	1.8	12.1	67.5	16.7	13,107	1.3	1.3	12.8	67.4	17.2	7,507	
Abertawe	2.1	1.7	11.3	67.1	17.8	19,089	*	*	13.9	68.9	15.6	2,362	
Castell-nedd Port Talbot	1.9	2.1	13.8	67.8	14.4	11,290	0.5	1.0	13.7	69.9	14.9	1,733	
Penybont ar Ogwr	2.2	1.4	12.5	67.6	16.3	12,048	0.0	1.3	16.4	68.9	13.4	943	
Bro Morgannwg	1.4	1.3	9.7	65.3	22.4	11,421	*	*	7.4	67.8	24.0	1,290	
Rhondda Cynon Taf	2.1	1.6	15.3	68.2	12.9	19,939	0.3	1.8	18.4	68.8	10.6	4,018	
Merthyr Tudful	2.0	1.5	16.5	67.7	12.3	4,917	0.0	1.6	12.6	68.7	17.0	364	
Caerffili	1.0	1.3	17.5	67.3	12.8	15,344	*	*	19.2	66.9	12.6	2,310	
Blaenau Gwent	1.5	1.8	19.4	66.8	10.5	5,415	0.0	*	39.0	58.4	*	154	
Torfaen	1.0	2.5	15.3	67.4	13.9	8,203	*	*	17.4	67.4	13.7	900	
Sir Fynwy	1.2	0.6	9.7	64.8	23.7	6,613	*	*	9.5	64.8	24.3	210	
Casnewydd	2.0	2.1	14.4	66.2	15.3	13,201	*	*	22.7	65.5	10.6	339	
Caerdydd	1.7	1.7	13.5	64.8	18.4	27,278	0.4	1.0	10.5	62.9	25.2	3,886	
Cymru	1.9	1.6	13.4	66.7	16.5	244,705	0.9	1.1	13.7	66.9	17.5	51,763	

(a) Nid yw'n cynnwys canlyniadau prawf darllen Saesneg dewisol i ddisgyblion ym mlwyddyn 3 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf


Siart 1: Canran y disgyblion ym mhob grŵp oedran a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Saesneg), yn ôl rhyw, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o ferched nag o fechgyn sgôr safonedig o fwy na 115 ar draws pob grŵp oedran yn y fersiwn Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol. Y bwlch rhwng merched a bechgyn oedd 2.0 o bwyntiau canran.
- Enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o lai na 85 ar draws pob grŵp oedran yn y fersiwn Saesneg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol. Y bwlch rhwng bechgyn a merched oedd 4.2 o bwyntiau canran.


Chart 2: Canran y disgyblion ym mhob grŵp oedran a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Cymraeg), yn ôl rhyw, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o ferched nag o fechgyn sgôr safonedig o fwy na 115 ar draws pob grŵp oedran yn y fersiwn Gymraeg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol. Y bwlch rhwng merched a bechgyn oedd 6.7 o bwyntiau canran.
- Enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o lai na 85 ar draws pob grŵp oedran yn y fersiwn Gymraeg o'r Prawf Darllen Cenedlaethol. Y bwlch rhwng bechgyn a merched oedd 6.7 o bwyntiau canran.


Siart 3: Canran y disgyblion a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Saesneg), yn ôl awdurdod lleol, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Yn Sir Fynwy y gwelwyd y ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd sgôr safonedig o fwy na 115 (23.7 y cant). Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y ganran isaf (10.5 y cant).
- Ym Mlaenau Gwent yr oedd canran y disgyblion a enillodd sgôr safonedig o lai na 85 ar ei huchaf (19.4 y cant). Ym Mro Morgannwg a Sir Fynwy y gwelwyd y ganran isaf (9.7 y cant).

Siart 4: Canran y disgyblion a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Cymraeg), yn ôl awdurdod lleol, 2014



(a) Mae canran y disgyblion a enillodd sgôr safonedig o fwy na 115 ar gyfer Blaenau Gwent wedi'i dal yn ôl oherwydd maint bach y cohort.
 (b) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- yng Nghaerdydd y gwelwyd y ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd sgôr safonedig o fwy na 115 (25.2 y cant).
- Ym Mlaenau Gwent yr oedd canran y disgyblion a enillodd sgôr safonedig o lai na 85 ar ei huchaf (39.0 y cant). Ym Mro Morgannwg y gwelwyd y ganran isaf (7.4 y cant).

Profion Rhifedd Cenedlaethol

Tabl 3: Canlyniadau Profion Rhifedd Cenedlaethol i bob disgybl, yn ôl rhyw, Grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol a chanlyniad, 2014


Noder: Mae sgoriau safonedig yn darparu mesur o berfformiad cymharol yn unig. Felly ni ddylid defnyddio'r data yn y datganiad hwn i gymharu perfformiad cymharol ar draws gwahanol gohortau a blynyddoedd.

Grŵp Blwyddyn	Rhyw	Praw f Rhifedd Cenedlaethol – Cydran Weithdrefnol						Praw f Rhifedd Cenedlaethol – Cydran Resymu						Cohort
		Yn absennol		Rhwng 85 a 115	Mwy na 115	Yn absennol		Rhwng 85 a 115	Mwy na 115					
		Wedi'u datgymhwuso	yn ystod y cyfnod prawf			Wedi'u datgymhwuso	yn ystod y cyfnod prawf							
%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%			
Blwyddyn 2	Bechgyn	2.5	1.0	14.8	64.4	17.3	17,470	2.6	1.7	15.4	64.9	15.3	17,470	
	Merched	1.0	1.2	13.1	70.8	13.9	16,696	1.1	1.8	13.4	69.0	14.7	16,696	
	Pob disgybl	1.8	1.1	14.0	67.5	15.6	34,166	1.8	1.8	14.4	66.9	15.0	34,166	
Blwyddyn 3 (a)	Bechgyn	2.5	1.2	14.0	65.1	17.2	17,130	2.5	1.9	14.8	64.9	15.9	17,130	
	Merched	1.2	1.1	13.6	70.1	13.9	16,303	1.2	1.7	13.8	68.4	14.8	16,303	
	Pob disgybl	1.9	1.2	13.8	67.6	15.6	33,433	1.9	1.8	14.3	66.6	15.4	33,433	
Blwyddyn 4	Bechgyn	2.4	1.2	13.0	65.5	17.9	16,965	2.5	1.7	13.3	65.3	17.2	16,965	
	Merched	1.3	1.3	14.2	71.3	11.9	16,107	1.3	1.9	13.3	70.6	12.9	16,107	
	Pob disgybl	1.9	1.3	13.6	68.3	15.0	33,072	1.9	1.8	13.3	67.9	15.1	33,072	
Blwyddyn 5	Bechgyn	2.6	1.1	14.3	64.5	17.5	16,631	2.6	1.8	13.7	65.0	16.8	16,631	
	Merched	1.2	1.1	13.3	69.8	14.6	15,630	1.3	1.6	15.3	68.4	13.4	15,630	
	Pob disgybl	1.9	1.1	13.8	67.1	16.1	32,261	2.0	1.7	14.5	66.7	15.2	32,261	
Blwyddyn 6	Bechgyn	2.5	1.1	14.1	63.9	18.3	16,292	2.6	1.8	13.4	65.8	16.4	16,292	
	Merched	1.4	0.9	13.3	69.9	14.5	15,507	1.4	1.4	13.7	68.6	14.9	15,507	
	Pob disgybl	2.0	1.0	13.7	66.9	16.4	31,799	2.0	1.6	13.6	67.1	15.7	31,799	
Blwyddyn 7	Bechgyn	1.8	2.3	14.2	64.0	17.7	15,879	1.8	3.0	16.4	63.3	15.3	15,879	
	Merched	0.9	1.8	13.9	71.4	12.1	14,929	0.9	2.4	13.2	72.1	11.4	14,929	
	Pob disgybl	1.4	2.1	14.0	67.5	15.0	30,808	1.4	2.7	14.9	67.6	13.4	30,808	
Blwyddyn 8	Bechgyn	1.9	2.5	13.3	64.9	17.4	16,348	1.9	3.3	12.4	67.4	15.0	16,348	
	Merched	0.8	2.3	15.7	68.2	13.0	15,395	0.8	3.1	11.7	71.7	12.7	15,395	
	Pob disgybl	1.3	2.4	14.5	66.5	15.2	31,743	1.4	3.2	12.0	69.5	13.9	31,743	
Blwyddyn 9	Bechgyn	2.0	3.0	13.5	64.2	17.3	16,618	2.0	4.1	13.0	64.7	16.2	16,618	
	Merched	0.9	2.9	14.1	69.8	12.3	15,706	0.8	3.8	13.0	69.5	12.9	15,706	
	Pob disgybl	1.4	2.9	13.8	67.0	14.9	32,324	1.4	4.0	13.0	67.0	14.6	32,324	
Pob blwyddyn	Bechgyn	2.3	1.7	13.9	64.6	17.6	133,333	2.3	2.4	14.1	65.2	16.0	133,333	
	Merched	1.1	1.6	13.9	70.2	13.3	126,273	1.1	2.2	13.4	69.8	13.5	126,273	
	Pob disgybl	1.7	1.6	13.9	67.3	15.5	259,606	1.7	2.3	13.8	67.4	14.8	259,606	

Tabl 4: Canlyniadau Profion Rhifedd Cenedlaethol, yn ôl ALI a chanlyniad, 2014

Aw durdod Lleol	Praw f Rhifedd Cenedlaethol – Cydran Weithdrefnol						Praw f Rhifedd Cenedlaethol – Cydran Resymu						Cohort
	Wedi'u	Yn absennol		Rhw ng 85	Mw y na	Cohort	Wedi'u	Yn absennol		Rhw ng 85	Mw y na		
	datgymhw uso	cyfnod praw f	Llai na 85	a 115	115		datgymhw uso	cyfnod praw f	Llai na 85	a 115	115		
%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%	%		
Ynys Môn	1.3	2.5	9.7	67.5	18.9	5,365	1.3	3.1	9.7	66.4	19.5	5,365	
Gwynedd	1.4	1.1	10.7	67.5	19.3	9,836	1.5	1.9	9.4	68.1	19.2	9,836	
Conwy	1.4	1.3	14.7	68.5	14.1	8,853	1.5	2.1	12.6	69.6	14.2	8,853	
Sir Ddinbych	2.1	2.4	13.6	68.8	13.1	8,641	2.0	3.2	12.3	68.2	14.3	8,641	
Sir y Fflint	1.0	1.7	14.1	69.3	13.9	13,254	1.0	2.8	12.0	69.4	14.7	13,254	
Wrecsam	2.1	2.0	14.9	66.7	14.4	11,248	2.1	2.5	13.5	67.3	14.7	11,248	
Powys	2.0	0.9	10.6	69.5	17.0	10,478	2.1	1.4	9.7	67.6	19.2	10,478	
Ceredigion	1.9	1.3	9.0	66.4	21.3	5,335	1.9	1.7	8.4	65.6	22.3	5,335	
Sir Benfro	1.4	1.6	11.9	68.3	16.9	9,969	1.4	2.9	11.3	67.8	16.7	9,969	
Sir Gaerfyrddin	1.5	1.4	10.6	68.5	18.0	15,267	1.6	2.1	10.8	67.9	17.6	15,267	
Abertawe	1.9	1.7	11.7	65.8	18.9	19,802	1.9	2.2	11.4	67.2	17.3	19,802	
Castell-nedd Port Talbot	1.7	1.9	13.5	68.3	14.7	11,826	1.8	2.3	15.8	68.2	12.0	11,826	
Penybont ar Ogwr	2.2	1.4	13.1	67.7	15.6	12,320	2.2	2.3	13.8	66.8	14.9	12,320	
Bro Morgannwg	1.3	1.3	10.4	66.3	20.8	11,809	1.3	1.9	10.0	68.3	18.5	11,809	
Rhondda Cynon Taf	1.9	1.7	17.6	67.5	11.3	20,992	1.9	2.5	17.6	67.5	10.4	20,992	
Merthyr Tudful	1.9	1.2	16.1	68.9	11.9	5,085	1.9	2.9	18.0	66.9	10.3	5,085	
Caerffili	1.0	1.3	17.6	67.9	12.2	16,076	1.0	1.9	18.0	67.8	11.2	16,076	
Blaenau Gwent	1.5	1.5	22.1	65.6	9.3	5,490	1.5	2.3	21.9	67.0	7.3	5,490	
Torfaen	1.0	2.6	16.5	68.2	11.7	8,395	1.1	3.2	16.5	68.0	11.3	8,395	
Sir Fynwy	1.2	0.8	11.0	67.1	20.0	6,707	1.1	0.8	11.8	69.3	16.9	6,707	
Casnewydd	1.8	2.6	16.4	66.4	12.8	13,361	1.8	3.0	17.3	66.3	11.7	13,361	
Caerdydd	1.6	1.5	14.9	65.4	16.6	28,474	1.6	2.3	15.2	65.7	15.2	28,474	
Cymru	1.7	1.6	13.9	67.3	15.5	259,606	1.7	2.3	13.8	67.4	14.8	259,606	


Siart 5: Canran y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn ôl rhyw, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o fwy na 115 ar draws pob grŵp oedran yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol). Y bwlch rhwng bechgyn a merched oedd 4.3 o bwyntiau canran.
- Ar gyfer pob blwyddyn yr un oedd y ganran o fechgyn a merched a enillodd sgôr safonedig o lai na 85 yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) (13.9 y cant).


Siart 6: Canran y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn ôl rhyw, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o fwy na 115 ar draws pob grŵp oedran yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu). Y bwlch rhwng bechgyn a merched oedd 2.5 o bwyntiau canran.
- Ar gyfer pob blwyddyn enillodd mwy o fechgyn nag o ferched sgôr safonedig o lai na 85 yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu). Y bwlch rhwng bechgyn a merched oedd 0.7 o bwyntiau canran.


Siart 7: Canran y disgyblion a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol), yn ôl awdurdod lleol, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Yng Ngheredigion y gwelwyd y ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd sgôr safonedig o fwy na 115 (21.3 y cant). Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y ganran isaf (9.3 y cant).
- Ym Mlaenau Gwent yr oedd canran y disgyblion a enillodd sgôr safonedig o lai na 85 ar ei huchaf (22.1 y cant). Yng Ngheredigion y gwelwyd y ganran isaf (9.0 y cant).

Siart 8: Canran y disgyblion a enillodd sgoriau safonedig o fewn y bandiau a ddangosir yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), yn ôl awdurdod lleol, 2014



(a) Yn cynnwys disgyblion a gafodd eu datgymhwyso neu a oedd yn absennol yn ystod cyfnod y prawf.

- Yng Ngheredigion y gwelwyd y ganran uchaf o ddisgyblion a enillodd sgôr safonedig o fwy na 115 (22.3 per cent). Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y ganran isaf (7.3 y cant).
- Ym Mlaenau Gwent yr oedd canran y disgyblion a enillodd sgôr safonedig o lai na 85 ar ei huchaf (21.9 y cant). Yng Ngheredigion y gwelwyd y ganran isaf (8.4 y cant).

Nodiadau

1. Y Cyd-destun

1.1 Polisi/Gweithredol;

Ym mis Mai 2013 cafodd y profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eu gweithredu ar sail statudol ar gyfer pobl disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9. Yn y gorffennol, mae llawer o ysgolion wedi defnyddio profion darllen a rhifedd masnachol yn ogystal â phroffion gallu gwybyddol. Drwy gyflwyno profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol mae'n sicrhau arferion cyson. Mae'r profion yn ategu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'u nod yw dilyn cynnydd disgyblion o ran sgiliau darllen a rhifedd o Flwyddyn 2 (diwedd y Cyfnod Sylfaen) hyd at Flwyddyn 9 (diwedd Cyfnod Allweddol 3). Bwriad y profion yw rhoi syniad cliriach i athrawon o ddatblygiad dysgwyr a sicrhau bod pob ysgol yn nodi anghenion eu disgyblion er mwyn datblygu eu gallu mewn darllen a rhifedd. Bydd hyn yn caniatáu iddynt nodi cryfderau a meysydd i'w gwella ac i ymyrryd yn gynt os yw disgyblion yn cael trafferthion. Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gael ar wefan Dysgu Cymru yma:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy>

Cafodd y profion darllen eu datblygu ar gyfer Llywodraeth Cymru gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NERF) a chafodd y profion rhifedd eu datblygu gan NFER, ar y cyd ag Acumina. Cafodd NFER ac Acumina gyngor gan baneli arbenigol, cynghorwyr ac ymarferwyr o Awdurdodau Lleol drwy gydol y broses o ddatblygu'r profion.

I gael rhagor o wybodaeth am y drefn o weinyddu'r profion, gweler "Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol - Llawlyfr Gweinyddu Profion 2014" sydd ar gael yma:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/2014-test-administration-handbook/?skip=1&lang=cy>

Mae Penaethiaid yn gyfrifol am adrodd ar ganlyniadau ar gyfer pob disgybl ar gofrestr yr ysgol fel y maent ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai; fe'i gelwir yn 'ddyddiad penodol ar y gofrestr'. Yn 2014, y dyddiad ar gyfer hwn oedd 13 Mai. Gallwch weld y trefniadau asesu statudol ar gyfer y flwyddyn ysgol 2013/14 yma:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculumwales/?skip=1&lang=cy>

1.2 Dogfennau Cysylltiedig

Ar 13 Awst 2014 cyhoeddwyd datganiad ystadegol yn ymwneud ag asesiadau athrawon ar gyfer y meysydd dysgu gorfodol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a'r pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3, dan y teitl "Deilliannau diwedd y cyfnod sylfaen ac asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol o'r pynciau craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3". Hefyd ar 13 Awst 2014 cyhoeddwyd datganiad arall yn ymwneud â phynciau nad ydynt yn rhai craidd yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chymraeg Ail Iaith yng Nghyfnod Allweddol 2, dan y teitl 'Asesiadau Athrawon o'r Pynciau Di-graidd, Cymru 2014'. Gellir gweld y ddau ddatganiad yma:

<http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?topic=Education+and+skills&lang=enhttp://wales.gov.uk/statistics-and-research/?topic=Education+and+skills&lang=cy>

Mae Adran Addysg Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ystadegau am broffion Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol y mae disgyblion y Lloegr wedi'u sefyll. Mae disgyblion yn Lloegr hefyd yn sefyll profion yng Nghyfnod Allweddol 1 i helpu gydag asesiadau terfynol athrawon. Yn ogystal â hynny, mae profion dewisol ar gael yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 yn Lloegr i helpu i olrhain cynnydd. Gallwch weld datganiadau ystadegol ar gyfer profion Cyfnod Allweddol 2 ac asesiadau athrawon yng Nghyfnod Allweddol 1, 2 a 3 yma:

<http://www.education.gov.uk/researchandstatistics/statistics>

2. Ffynonellau Data

2.1 Profion Darllen Cenedlaethol

Cafodd y data ar gyfer Profion Darllen Cenedlaethol eu casglu drwy'r system Casglu Data Cenedlaethol (NDC) oedd yn bodoli eisoes. Casgliad o ddata electronig yw'r NDC o asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaenol a Chyfnod Allweddol 2 a 3 a chafodd ei ehangu i gynnwys canlyniadau Profion Darllen Cenedlaethol am y tro cyntaf yn 2013. Mae ysgolion yn anfon data i Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru dan ofal eu Hawdurdod Lleol.

2.2 Profion Darllen Cenedlaethol

Ar gyfer 2014, cafodd yr NDC ei ehangu i gynnwys casglu data'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (y rhannau gweithredol a rhesymu).

Gallwch weld crynodeb o'r broses Casglu Data Cenedlaethol (NDC) ar gyfer 2014 gan gynnwys amserlenni a threfniadau adrodd yma:

http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/datacollections/nationaldatacollection/?s_kip=1&lang=cy

3. Diffiniadau

3.1 Cwmpas

Mae'n ofyniad statudol i bob disgybl o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 sefyll y prawf darllen a'r prawf rhifedd. Mae'n ofynnol i ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlynnyddoedd 2 a 3 sefyll y fersiwn Gymraeg o'r prawf darllen yn unig, er y gall ysgolion ddewis bod plant sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 3 yn sefyll y fersiwn Saesneg o'r profion yn ogystal. Er cysondeb, mae canlyniadau unrhyw brawf Saesneg dewisol ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf ym Mlwyddyn 3 wedi cael eu tynnu oddi ar y gwaith dadansoddi yn y datganiad hwn.

O Flwyddyn 4 i Flwyddyn 9, rhaid i ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf gyflwyno canlyniadau ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r profion darllen.

Roedd ysgolion yn gallu dewis a fyddai'r disgyblion yn sefyll y profion rhifedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Roedd disgyblion a safodd y papur yn Gymraeg hefyd yn gallu cyfeirio at y fersiwn Saesneg o'r papur.

Roedd un papur ar gyfer grwpiau o ddwy flwyddyn yn y profion darllen ond roedd papur prawf rhifedd gwahanol ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Gallwch weld crynodeb o'r papurau prawf yn y tabl isod:

Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol	Papur Prawf Darllen Cenedlaethol Cymraeg	Papur Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Cymraeg (Gweithdrefnol)	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Saesneg (Gweithdrefnol)	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Cymraeg (Rhesymu)	Papur Prawf Rhifedd Cenedlaethol Saesneg (Rhesymu)
2	CA2	EA2 ^(a)	2CG14	2EP14	2CRh14	2ER14
3	CA2	EA2 ^(b)	3CG14	3EP14	3CRH14	3ER14
4	CB2	EB2	4CG14	4EP14	4CRH14	4ER14
5	CB2	EB2	5CG14	5EP14	5CRH14	5ER14
6	CC2	EC2	6CG14	6EP14	6CRH14	6ER14
7	CC2	EC2	7CG14	7EP14	7CRH14	7ER14
8	CD2	ED2	8CG14	8EP14	8CRH14	8ER14
9	CD2	ED2	9CG14	9EP14	9CRH14	9ER14

(a) Nid yw'n ofynnol i ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf sefyll y prawf hwn

(b) Yn ddewisol ar gyfer disgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf

Dylai disgyblion sefyll y papur(au) prawf ar gyfer grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol lle cânt eu dysgu. Mae'n bosibl y bydd rhai yn hŷn neu'n iau ac efallai y caiff rhai eu dysgu mewn dosbarth lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o wahanol oedran.

Mae canlyniadau'r profion darllen Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyflwyno ar wahân yn y datganiad hwn. Mae canlyniadau'r profion rhifedd wedi'u huno yn y datganiad hwn gan fod cynnwys y profion rhifedd Cymraeg a Saesneg yr un fath.

3.2 Sgoriau Safonedig

Cafodd sgoriau crai'r disgyblion o'r papurau prawf eu newid yn sgoriau safoni, ac fe'u cyflwynir yn y datganiad hwn.

Ar lefel Cymru, bwriad y safoni yw cyd-fynd â dosbarthiad amllder a elwir yn 'dosbarthiad arferol' ac mae gan y sgoriau gyfartaledd o 100, sy'n golygu ei bod yn hawdd gweld a yw disgybl wedi perfformio'n well neu'n waeth na'r cyfartaledd wrth gymharu â'r sampl safonedig. Bwriad arall y safoni yw rhoi gwyriad safonol (mesur o ledaeniad sgoriau) o 15. Mae'r model hwn wedi'i ddylunio er mwyn sicrhau bod gan tua 68 y cant o ddisgyblion sy'n sefyll y prawf sgôr safonedig o fewn 15 o bwyntiau i'r sgôr cyfartalog (rhwng 85 a 115).

Gallwch gael eglurhad pellach o sgoriau safonedig o'r canllawiau canlynol ar sgoriau safonedig yn ôl oedran, a gyhoeddwyd gan NHER:

<http://www.nfer.ac.uk/research/centre-for-assessment/age-standardisation.cfm>

Cafodd y Profion Darllen a Rhifedd eu safoni yn ôl y data poblogaeth "fyw". Felly mae'r data ar lefel Cymru ar gyfer yr holl brofion ar draws yr holl grwpiau blwyddyn yn dilyn y patrwm disgwylidig yn fras gyda chymedr o 100 a gwyriad safonol o 15.

Nid oedd yn bosibl darparu sgoriau safonedig ar gyfer rhai disgyblion. Ni all cyraeddiadau ar eithafion y raddfa gael eu modelu'n gywir gan nad oedd digon o ddisgyblion yn y sampl safonedig wedi llwyddo i gael sgoriau oedd yn golygu y gallent gael eu cyfrifo o fewn y raddfa angenrheidiol o ddibynadwyedd ystadegol.

3.3 Datgymhwyso

Mae'r diffiniad o ddatgymhwyso a'r canllawiau cysylltiedig yn wahanol i'r hwnnw a ddarparwyd ar gyfer asesiadau athrawon. Felly, ni ellir cymharu cyfraddau datgymhwyso yn uniongyrchol a gallant amrywio. Mae'r canllawiau datgymhwyso ar gyfer y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar gael ar wefan Dysgu Cymru yma:

<http://learning.wales.gov.uk/resources/2014-test-administration-handbook/?skip=1&lang=cy>

4. Talgrynnu a symbolau

Mewn tablau lle mae ffigurau wedi cael eu talgrynnu i'r digit olaf agosaf, gall fod gwahaniaeth rhwng cyfanswm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm a nodir.

Mae'r symbolau canlynol wedi cael eu defnyddio drwy'r ddogfen:

- canrannau sy'n llai na 0.05 ond nid yn sero
- . amherthnasol
- .. ddim ar gael
- ~ ddim ar gael eto
- * data na ellir ei roi oherwydd cyfrinachedd

*Mae maint cohortau wedi cael eu disodli gan * lle ceir llai na 5 ond mwy na sero o ddisgyblion mewn categori.*

Diben hyn yw gwneud defnyddwyr yn ymwybodol o'r niferoedd bach iawn mewn rhai categorïau ac i ddangos y dylid bod yn ofalus wrth gymharu data cyrhaeddiad ar gyfer y categorïau hyn.

Mewn amgylchiadau lle gellir nodi ffigur a hepgorwyd o'r data sy'n weddill, mae'r ffigur lleiaf nesaf hefyd wedi cael ei hepgor.

5. Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum dimensiwn o ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae hefyd yn cynnwys materion penodol yn ymwneud ag ansawdd data 2014, ac mae'n disgrifio'r dull rheoli ansawdd a ddefnyddir yn y maes hwn.

Croesewir sylwadau am gwmpas y ddogfen hon a'r ffordd y caiff ei chyflwyno. Mae'r manylion cyswllt ar y dudalen flaen.

5.1 Perthnasedd

Pwy yw defnyddwyr allweddol y data hwn?

Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio yn Llywodraeth Cymru a'r tu allan. Dyma rai o'r defnyddwyr allweddol:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Cynulliad Cenedlaethol ;
- Yr Adran Addysg a Sgiliau yn Llywodraeth Cymru;
- Meysydd eraill yn Llywodraeth Cymru;
- Y gymuned ymchwil;
- Awdurdodau Lleol ac ysgolion;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau.

Sut y bydd y data yn cael eu defnyddio?

Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- Cefndir ac ymchwil gyffredinol;
- Eu cynnwys mewn adroddiadau a dogfennau briffio;
- Cyngor i'r Gweinidogion;
- Setiau Data Craidd Cymru Gyfan;
- Cymariaethau a meincnodau Awdurdodau Lleol ac ysgolion;
- Llywio'r broses o wneud penderfyniadau o ran y polisi addysg yng Nghymru;
- Rhoi gwybodaeth i ESTYN yn ystod arolygiadau ysgol;
- Helpu gyda gwaith ymchwil i gyrhaeddiad addysgol.

5.2 Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod yr holl ddata'n cael eu dilysu cyn i'r tablau gael eu cyhoeddi. Caiff y data eu casglu ar ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, sef system ddiogel ar gyfer trosglwyddo data ar-lein a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae amryw o gamau dilysu awtomataidd a gwiriadau yn rhan o'r broses er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel.

Nid oedd dosraniad y sgoriau safonedig a gafwyd ar gyfer disgyblion oedd yn sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol yn 2013 yn cyd-fynd â'r dosraniad a ddatblygwyd i gael sgôr gyfartalog o 100. Roedd y sgôr gyfartalog a gofnodwyd yn y profion "byw" yn uwch, gan ddangos bod y disgyblion a safodd y profion ym mis Mai 2013 wedi perfformio'n well na'r grŵp sampl pan gafodd y sgoriau safonedig eu datblygu. O ganlyniad, cafodd y Profion Darllen Cenedlaethol eu hailsafoni yn seiliedig ar y profion "byw". <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/national-reading-numeracy-test-results/?lang=en> Mae tablau'r Profion Darllen Cenedlaethol wedi cael eu hadolygu yn natganiad Canlyniadau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol, 2013.

5.3 Amseroldeb a Phrydlondeb

Mae'n ofynnol i ysgolion weinyddu'r profion yn ystod cyfnod set. Ar gyfer 2014, roedd y cyfnod profi yn para rhwng 7 Mai a 13 Mai. Roedd DEWi, sef system ddiogel ar gyfer trosglwyddo data ar-lein a

ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gael i lanlwytho'r ffeiliau Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol ar 7 Mai 2014. Gofynnwyd i ysgolion gyflwyno data ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr yn yr ysgol ar 13 Mai.

5.4 Hygyrchedd ac Eglurder

Caiff gwybodaeth am y Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn ei rhyddhau cyn i'r datganiad gael ei gyhoeddi ar wefan Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.

5.5 Cymaroldeb

Ni chafodd data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eu casglu ar gyfer ysgolion annibynnol. Cafodd Unedau Cyfeirio Disgyblion y dewis i gyflwyno data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol os oeddent yn dymuno.

Cafodd y data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion oedd yn newydd i'r system addysg yng Nghymru neu yn Lloegr (NEWBES) o fewn y ddwy flynedd academaidd flaenorol eu tynnu oddi ar restr canlyniadau ysgolion ac Awdurdodau Lleol, ond cawsant eu cynnwys yn y canlyniadau cyffredinol ar gyfer Cymru. Ni chafodd dyddiad mynediad disgyblion NEWBES ei nodi yn ystod y broses o gasglu data Profion Rhifedd Cenedlaethol. Felly, mae data NEWBES a gasglwyd drwy'r system Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol wedi eu paru ar draws a'u defnyddio ar gyfer data y Prawf Rhifedd Cenedlaethol pan fo'n bosibl.

Mae'r sgoriau safonedig yn rhoi mesur o berfformiad perthnasol yn unig. Felly, dylid defnyddio'r data yn y datganiad hwn i gymharu'r perfformiad perthnasol o fewn y cohortau gwahanol yn hytrach nag i asesu perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosydd penodol. Dylid hefyd nodi na ddylid defnyddio canran y disgyblion sy'n llwyddo i gael sgôr safonedig o fwy na 85 fel dangosydd o berfformiad "derbyniol".